

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHELIR A'R NOS LUN 27AIN O FEDI 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Ceri Davies, Arwel Davies, Geraint Jones, Bari Evans, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Falmai Evans a Hywel Davies.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Cyngorwyr Geraint Jones a Bari Evans are item 11A isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD A'R 26AIN O ORFFENNAF 2021.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Orffennaf 2021 gan y Cyngorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i ddisgwyl ymateb Swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych (trwy law'r Cyngorydd Sir Ddinbych, Joe Welch) sydd yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

A: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.

B. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

Cytunodd y Cyngorydd Joe Welch i ysgrifennu at Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion o dan sylw.

6. AELODAETH Y CYNGOR.

A. Nodwyd ar ddechrau'r cyfarfod gan y Cadeiriodd o'r farwolaeth drist Stan Williams ers y cyfarfod blaenorol y Cyngor. Y Clerc eisoes wedi gyrru cerdyn o Gyd-deimlad dros y Cyngor.

B. Derbyniwyd un cais am gyfethol i'r sedd wag a oedd yn bodoli ar y Cyngor, sef Miss Rhian Evans. Penderfynwyd yr aelodau i gyfethol Miss Evans yn aelod o'r Cyngor ac i ofyn am nodyn o'r "Gyrfa" Miss Evans erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

7. ADRODDIAD DIWEDDARAF "BROADBAND BROADWAY".

Derbyniwyd adroddid gan y Cadeirydd fod Cwmni Broadband wedi ail penderfynu beidio rhoi band eang yng Ngogledd Cymru oherwydd siambrau technegol sydd yn newyddion trist dros ben i'r Gymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch ar ôl yr holl addewidion am y gwasanaeth Band Eang oeddent wedi rhoi i'r Cyngor Cymuned.

8. CYFLYMDRA TRAFFIC TRWY BENTRE' LLANRHAEADR AR YR A525.

Derbyniwyd e-bost trwy law'r Clerc oddi wrth un o'r trigolion Llanrhaeadr yn gofyn am arwydd 40 filltir yr awr ar ochr Rhuthun o'r A525 yn Llanrhaeadr er mwyn cwtogi cyflymdra traffic cyn cyrraedd yr arwydd 30 filltir yr awr oherwydd iechyd a diogelwch. Cytunodd y Cyngorydd Sir Ddinbych, Joe Welch, gysylltu ar Swyddog Diogelwch y Ffordd a Thrafnidiaeth Gynaliadwy Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am yr arwydd ychwanegol o'r 40 filltir yr awr ar ochr Rhuthun o'r A525 yn Llanrhaeadr.

9. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

10. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc £15,106.00.

B. Derbyniwyd yr ail ran o'r Precept y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2021/22 - £4,192.00.

C. Rhoddwyd yr awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2021 £501.90.

2. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2021 £125.60.

3. Sefydliad Brenhinol y Lleng Prydeinig am ddau Gerflun Milwr £376.00.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A: Cais 23/2021/0802 - Dymchwel adeiladau fferm segur bresennol, codi adeilad ar gyfer llety gwyliau, gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig ar adeiladau allanol gyferbyn a Tan-y-Fron, Llanrhaeadr. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd:-

1: Pedwar polyn gyda tho yn unig yw'r adeilad amaethyddol presennol ar y safle.

2. Mi fydd yr adeilad newydd ddim ar un safle a'r adeilad presennol.

3. Mi fydd yr adeilad newydd ddim o'r un dyluniad ar breswyl eraill yn yr ardal.

4. Mi fydd y datblygiad yn cychwyn arwydd o dai newydd yn yr ardal.

5. Mae'r datblygiad yn erbyn polisi Cynllun Lleol Cyngor Sir Ddinbych.

B. Cais 23/2021/2021/0543 - Codi estyniad un llawr cefn ac addasiadau cystiedig yn Tyddyn Uchaf, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

C. Manylion cais cynllunio diweddaraf ar gae'r Lodge, Llanrhaeadr gan y perchennog. Ar ôl trafodaeth ynglŷn ar wybodaeth cyn cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Perchennog, penderfynwyd peidio â rhoi sylwadau ar hyn o bryd ac i gwtiad am y cais cynllunio trwy'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

12. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Dŷ Gobaith am gefnogaeth arian y Cyngor, sef £250.00.

B. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr Darren Millar, Aelod o'r Senedd, yn cynnig mynychu cyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Pafin troed cyhoeddus wrth Faes Hwylfa yn Llanrhaeadr eisiau ei lanhau.

B. Ffordd o'r Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch tuag at Graig Lwyd, Prion eisiau sylw.

C. Ffordd o'r Groesffordd, Prion at Gyffordd Ysgol Pant Pastynog eisiau sylw.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc archebu dau Gerflun Milwr oddi wrth yr Royal British Legion erbyn Sul y Cofio.

B. Mae'r wal Eglwys Llanrhaeadr ar yr A525 ar fin chael ei thrwsio.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 25AIN O HYDREF 2021 AM 7.30 O'R GLOCH TRWY MICROSOFT TEAMS.